

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A'R NOS LUN 25AIN O IONAWR 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Ceri Davies, Iwan Jones, Bari Evans, Geraint Jones, Arwel Davies, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Stan Williams, Hywel Davies a Falmai Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Cyngorydd Bari Evans are item 10C isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD A'R 30AIN O DACHWEDD 2020.

Cadarnhawyd cofnodion 30ain o Dachwedd 2020 gan y Cyngorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gefnogaeth arian y Cyngor oddi wrth "Awyr Las".

B. Derbyniwyd adroddiad Aran Briffyrdde Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1: Graffiti ar yr arwydd "Ffordd yn Culhau" wrth Rossa Fawr ym Mhrion - gwaith wedi ei chwblhau.

2. Gwli eisiau eu glanhau yn Llan Llanrhaeadr- gwaith wedi ei chwblhau.

3. Estynni'r llinellau melyn dwbl ar y ffordd wrth y Lodge yn Llan Llanrhaeadr - gofynnir am lun i weld y broblem - cytunodd y Cadeirydd i dynnu llun.

4. Golau stryd wrth Tan-y-groes ym Mhrion eisiau sylw - gwaith wedi ei chwblhau.

5. Gwli eisiau eu glanhau ym Mhrion – gwaith wedi ei chwblhau

6. Arwydd "Dim Disgwyl" ddim wedi eu rhoi ar y pyst wrth Y Lodge yn Llanrhaeadr - gofynnir am lun i weld y broblem - cytunodd y Cadeirydd i dynnu llun.

6. DIWEDDARAF BAND EANG Y GYMUNED.

Derbyniwyd adroddiadau fod BT yn ymwneud ymchwil o'r ardal ar hyn o bryd.

7. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

8. MATERION CYLLID.

A. Datganiad banc £16,600.08.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r precept am y flwyddyn 2020/21 - £4,040.00.

C. Adroddwyd y Clerc fod Aelodau'r Cyngor gan yr hawl i lwfans o £150.00, y Cadeirydd £1,500.00 ar Is-gadeirydd £500.00 i'w hawlio (os dymuno) cyn cyfarfod mis Mawrth 2020 y Cyngor.

9. I GADARNHAU'R PRECEPT Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2021/2022.

Ar ôl trafodaeth ynglŷn â'r cyllid y Cyngor am y flwyddyn ariannol bresennol (2020/2021) a'r amcangyfrif am y flwyddyn ariannol 2021/2022, penderfynwyd gadael Treth y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2021/2022 ar y sail o £24 ar yr 524 preswyl yn y gymuned sydd yn cynhyrchu incwm o £12,576.00 sydd yn cyfateb i'r flwyddyn bresennol y Cyngor.

10. CEISIADAU CYNLLUNIO:-

- A. Cais cynllunio 23/2020/1039 - codi estyniad deulawr i ochr yr annedd yn 16 Caer Felin, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.
- B. Cais cynllunio 23/2021/0001 - amrywio amod rhif 2 cod caniatâd cynllunio rhif 23/2020/0196/PF i ganiatáu diwygiadau i'r gwaith adeiladu ac ymddangosiad yn Ffordd Las, Llanrhaeadr - dim sylwadau oherwydd prinder gwybodaeth.
- C. Cais cynllunio 23/2021/0010 - tynnu cyntedd dan do a chodi cyntedd newydd ynghyd ag addasiadau mewnol yn Fflat Siop-y-Pentre. Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.
- D. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-
1. Cais Cynllunio 23/2020/0419 - Codi estyniad ac addasiadau i'r annedd, newid defnydd tir amaethyddol i gwrtil domestig, tirlunio a gwaith cysylltiedig yn Nant Aber Oer, Peniel.
 2. Cais Cynllunio 23/2020/0776 – Codi annedd newydd a gwaith cysylltiedig yn Bwlch-y-Gynog, Saron.

10. GOHEBIAETH.

- A. Chadarnhawyd Adran Briffyrdd y canlynol ar ôl llifogydd yn Llanrhaeadr ar 20fed o Ionawr 2021:-
1. Mae'r bont Nant Mawr yn ddiogel ar hyn o bryd ar ôl archwiliad.
 2. Nodwyd y Cyngor Sir fod rhan o'r wal y briffordd yr Eglwys wedi dymchwel ac mi fydd y Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r mater cyn gynted â phosib.

11. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Cadwyd trafodaeth ynglŷn ar lifogydd diweddar yn Llanrhaeadr ar 20fed o Ionawr 2020 ac mi fydd y Cyngorydd Sir. Joseph Welch yn trafod pryderon y Cyngor Cymuned gyda'r Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych.

12. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

- A. Yn dilyn adroddiadau Cyngorwyr Elfed Williams a Bari Evans roeddent wedi cael sachau tywod ar hast yn ystod y llifogydd iet trigolion y gymuned, penderfynwyd yr aeloda i'r Cyngor Cymuned i dalu am y sachau tywod.
- B. Cytunodd y Cyngorydd Bari Evans i edrych i mewn i'r gwaith sydd angen o flaen afon Nant-y-Felin ym Mhentre' Llanrhaeadr.
- C. Penderfynwyd adroddi Gyngor Sir Ddinbych at y materion canlynol:-
1. Angen giât llwybr cyhoeddus newydd wrth Llwyn Mawr yn Llanrhaeadr.
 2. Diffyg arwyddion clir llwybr cyhoeddus Hiraethog uwchben Ffrith Fedw, Prion.
 3. Be camau mae'r Cyngor Sir am gymryd yn y dyfodol i arbed llifogydd ym mhentref Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, gan gymryd i ystyriaeth bod tafarn y Kings Head wedi mynd dan dwr am y pumed tro bellach o fewn ychydig flynyddoedd.
 4. Cyfrifoldeb pwy ydi glanhau ffosydd bob ochr i'r ffordd o'r hen drac rheilffordd i bont Clywedog.
 5. Tyllau yn y ffordd rhwng Tan-y-Garth, Prion a Chae Glas, Peniel.
 6. Tyllau yn y ffordd rhwng Tŷ Cerrig a Lon, Prion.
 7. Tyllau yn y ffordd rheng Pen-y-Gerddi a Fferm y Coleg ym Mheniel.
 8. Eisiau ailgyflenwi sypiau graeanu yn Saron a Phrion.
- D. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyflwyno llochesi fysiau ar ochr Rhuthun o'r A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr - Cytunodd y Clerc i edrych i mewn i'r mater.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – NOS LUN 22AIN O CHWEFOR 2021.